**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau a Moeseg** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19 Mai 2021** |
| **Teitl:** | **Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor** |
| **Diben yr adroddiad:** | **Sicrhau olyniaeth briodol o ran Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor** |

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol y bydd Cyfnod Swydd dau o'n haelodau annibynnol presennol, Mr Hywel Wyn Jones a Mr Rif Winfield, yn dod i ben ar 26 Medi 2021.

Felly, bydd cyfnod swydd y Cadeirydd presennol, Mr Hywel Wyn Jones 'y Cadeirydd' hefyd yn dod i ben ar 26 Medi 2021. Mae'r Cadeirydd presennol am roi'r gorau i'r gadeiryddiaeth ar ddiwedd y cyfarfod ar 19 Mai 2021, fel y gall y Pwyllgor benderfynu mewn da bryd pwy fydd ei olynydd. Mae hi'n ofynnol i Gadeirydd y Pwyllgor (a'r Is-gadeirydd) gael eu penodi o blith aelodau annibynnol y Pwyllgor. Ni fydd yr aelodau annibynnol newydd yn dechrau ar eu swydd tan 27 Medi 2021. Felly, bydd yn rhaid penodi'r Cadeirydd newydd o blith yr aelodau sydd yn weddill (sef Caroline White, John Weston a Carol Edwards).

Os digwydd i'r Is-gadeirydd presennol gael ei phenodi, wedyn bydd angen ystyried enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd yn lle'r Is-gadeirydd presennol a byddai'r swydd honno hefyd yn dod i rym ar 20 Mai 2021.

**Y Cynnig**
Gofynnir i'r Pwyllgor enwebu Cadeirydd i olynu'r Cadeirydd presennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 19 Mai 2021, gyda'r swydd yn dod i rym ar 20 Mai 2021.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad/Argymhellion:** | 1) Bod y Pwyllgor yn penodi unigolyn i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor a'r swydd honno'n dod i rym ar 20 Mai 2021.<br><br>2) Gan ddibynnu ar ganlyniad 1) uchod, bod y Pwyllgor yn penodi unigolyn i fod yn Is-gadeirydd y Pwyllgor, a'r swydd honno'n dod i rym o 20 Mai 2021 ymlaen. |

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Elin Prysor |
| **Swydd:** | Swyddog Monitro |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 6 Mai 2021 |
| **Acronymau:** | |